# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 6**

CYFFREDINOL

**98 Dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio**

(1) Mae darpariaethau'r Ddeddf hon a darpariaethau Deddf Addysg 1996 i'w darllen fel petai nhw i gyd wedi eu cynnwys yn Neddf Addysg 1996.

(2) Ond pan roddir i ymadrodd at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon ystyr sy'n wahanol i'r un a roddwyd iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, mae'r ystyr a roddir at ddibenion y ddarpariaeth honno i fod yn gymwys yn lle'r un a roddwyd at ddibenion Deddf Addysg 1996.

(3) Yn y Ddeddf hon—

mae i "awdurdod esgobaethol priodol" yr un ystyr ag ("*appropriate diocesan authority*") yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") (ac eithrio yn adran 54(2)(b)) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae "awdurdod ysgol" ("*school authority*") wedi ei ddiffinio yn adran 32 at ddibenion Pennod 3 o Ran 2;

ystyr "y Cod" ("*the Code*") ym Mhennod 2 o Ran 3 yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);

ystyr "corff crefyddol priodol“ ("*appropriate religious body*“)—

(a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, neu ysgol arfaethedig o'r fath, yw'r awdurdod esgobaethol priodol, a

(b) yn achos ysgolion eraill neu ysgolion arfaethedig eraill, yw'r corff sy'n cynrychioli'r crefydd neu'r enwad crefyddol a ddatganwyd, neu

*Statws This is the original version (as it was originally enacted).*

y bwriedir iddo gael ei ddatgan, mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i "corff sefydledig" yr un ystyr â ("*foundation body*") yn adran 21(4)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae "cyfnod gwrthwynebu" ("*objection period*") wedi ei ddiffinio yn adran 49(2) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae "cynigydd" ("*proposer*") wedi ei ddiffinio yn adran 56 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae "darpariaeth ranbarthol" ("*regional provision*") wedi ei diffinio yn adran 64 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;

mae "darparu" ("*provide*") wedi ei ddiffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89;

mae "disgybl" ("*pupil*") wedi ei ddiffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89;

ystyr "llywodraethwr sefydledig" ("*foundation governor*"), mewn perthynas ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, yw person a benodwyd yn llywodraethwr sefydledig yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "newid rheoleiddiedig" ("*regulated alteration*") ym Mhennod 2 o Ran 3 yw newid a ddisgrifir yn Atodlen 2;

mae "pwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol" ("*powers to make proposals to alter its school*") wedi eu diffinio yn adran 83 at ddibenion Rhan 3;

mae "pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion" ("*powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools*") wedi eu diffinio yn adran 83 at ddibenion Rhan 3;

ystyr "rhagnodedig" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi drwy reoliadau;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae "swyddogaethau addysg arbennig" ("*special education functions*") wedi eu diffinio yn adran 64 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;

mae i "un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig" yr un ystyr â ("*Roman Catholic Church school*") yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

mae i "un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru" yr un ystyr â ("*Church in Wales school*") yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol feithrin a gynhelir;

mae "ysgol fach" ("*small school*") wedi ei diffinio yn adran 56 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;

mae "ysgol gynradd" ("*primary school*") wedi ei diffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89.

(4) Ar gyfer cyfeiriadau yn Rhan 3 at—

(a) terfynu ysgol a gynhelir, gweler adran 83;

(b) categori ysgol, gweler adran 83.

(5) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at ysgol â chymeriad crefyddol yn cyfeirio at ysgol sydd wedi ei dynodi'n un sydd â chymeriad o'r fath drwy orchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.